GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif Cyfeirnod:** ICC76 **Rhif Fersiwn:** F1 **Dyddiad yr adolygiad Nesaf: 16 Mai 2026**

Polisi Dyletswydd Gonestrwydd

Datganiad Polisi

Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer rheoli digwyddiadau lle amheuir bod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno neu y gallai fod wedi'i sbarduno.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod, hyd yn oed gyda'r bwriadau gorau, bod camgymeriadau'n gallu digwydd, a'u bod yn digwydd, a gall camgymeriadau arwain at ganlyniadau anfwriadol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac i'r sefydliad.

Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r bobl yr effeithir arnynt eisiau cael gwybod yn onest beth ddigwyddodd, beth fydd yn cael ei wneud mewn ymateb i hynny, ac maen nhw am wybod pa welliannau fydd yn cael eu gwneud i atal hyn rhag digwydd eto i rywun arall yn y dyfodol.

Lle nodir digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd, dylid ymchwilio iddynt o fewn yr amserlenni gofynnol er mwyn deall beth ddigwyddodd gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella a gwersi i'w dysgu.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn golygu bod gan sefydliadau'r GIG ddyletswydd i fod yn agored ac yn onest gyda phobl y maen nhw'n darparu gofal iechyd ar eu cyfer ac, os aiff pethau o chwith a bod niwed wedi digwydd, rhaid iddynt gydnabod hyn a chyfathrebu â'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae hyn yn adeiladu ar egwyddorion Gweithio i Wella sydd eisoes ar waith a'r amcan cyffredinol yw sicrhau, pan fydd person yn derbyn gofal iechyd gan y GIG, y bydd ei ddarparwr gofal yn ymdrin ag ef mewn ffordd onest ac agored. Mae'r Ddyletswydd yn sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn glir ynghylch osgoi unrhyw ddiwylliant posibl o fwrw bai ac yn cefnogi'r rhai lle mae camgymeriadau a gwallau wedi'u gwneud.

Cynhyrchwyd y polisi hwn i fodloni gofynion Canllawiau Statudol Dyletswydd Gonestrwydd 2023.

Ymrwymiad Polisi

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mabwysiadu dull cyffredin a safonol ar gyfer ymdrin â phob digwyddiad lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno neu lle gallai fod wedi'i sbarduno.

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod strwythurau a mecanweithiau adrodd priodol ar waith fel y gellir ymchwilio i ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd a'u rheoli mewn modd rhagweithiol ac amserol, yn unol â gofynion y Canllawiau Statudol.

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig
Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Y dogfennau cysylltiedig yw:

- Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023
- Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd
- Polisi Rheoli Hawliadau
- Gweithdrefn Rheoli Hawliadau
- Gweithdrefnau cwynion
- Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd
- Polisi a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Rheoli Digwyddiadau
- Polisi Gweithio i Wella
- Gweithdrefn Gwneud Iawn
- Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Risg

Cwmpas

Lluniwyd y polisi hwn ar gyfer rheoli digwyddiadau sydd wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd neu a allai ei sbarduno.

Mae cwmpas y polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd wedi'i gwblhau a gellir ei weld ar y tudalennau gwe ar gyfer polisïau.
Cymeradwywyd gan	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyddiad Cymeradwyo	16 Mai 2023
Dyddiad Adolygu	16 Mai, 2026
Dyddiad Cyhoeddi:	25 Mai 2023
Grŵp gydag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau ategol	Tîm Arwain
Cyfarwyddwr Gweithredol/	Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr

Cyfarwyddwr Atebol	Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Awdur	Stefanie Harvey-Powell, Rheolwr Hawliadau

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, dylid sicrhau mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r adran Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau

Fersiwn rhif	Dyddiad Adolygu	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o Welliannau
F1	23.01.23			Cyflwyno polisi newydd i gefnogi gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn fewnol

Tudalen Gynnwys

1 Cyflwyniad 6

2 Yr hyn sy'n Sbarduno Dyletswydd Gonestrwydd 6

3 Nodau 6

4 Rolau a chyfrifoldebau 7

5 Gofynion Adrodd 9

6 Trefniadau Sicrwydd a Monitro'r Bwrdd 10

7 Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd 10

8 Monitro ac archwilio 11

9 Hyfforddiant 11

10 Cyfrinachedd 11

1 Cyflwyniad

Mae’r Ddyletswydd Gonestrwydd yn golygu bod gan sefydliadau'r GIG ddyletswydd i fod yn agored ac yn onest gyda phobl y maent yn gofalu amdanynt neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer os aiff pethau o chwith a bod niwed wedi digwydd.

Pwrpas y Ddyletswydd yw adeiladu ar y ddeddfwriaeth Gweithio i Wella bresennol, yn ogystal â Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol, gan barhau i hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a gonest gyda defnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n ysgogiad ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a lles poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol a bod yn glir ynghylch osgoi diwylliant posibl o fwrw bai. Bydd y Ddyletswydd yn ategu'r Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol sydd eisoes yn ofynnol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol unigol.

2 Yr hyn sy'n Sbarduno Dyletswydd Gonestrwydd

Rhaid bodloni'r amodau canlynol i sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd:-

a) Defnyddiwr gwasanaeth y dylid cynnig **gofal iechyd** iddo; y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo neu wedi cael ei ddarparu iddo wedi cael **canlyniad niweidiol**;

Dylid trin defnyddiwr gwasanaeth fel un sydd wedi dioddef canlyniad niweidiol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn profi unrhyw **niwed annisgwyl neu anfwriadol** nad yw'n ansylweddol neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y **gallai'r** defnyddiwr brofi hynny. Diffinnir niwed cymedrol a difrifol o fewn y Canllawiau Statudol ac maent wedi'u cynnwys yn y Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd.

b) Roedd **darparu'r gofal iechyd** yn ffactor neu o bosibl yn ffactor yn y ffaith i’r defnyddiwr gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Nid oes angen bod yn gwbl sicr bod y gofal iechyd wedi achosi'r niwed. Mae'r ffaith y **gallai** fod wedi bod yn ffactor yn ddigon.

3 Nodau

Mae'r polisi hwn yn rhan annatod o'n dull o ymdrin â Rheoli Risg a Pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ac mae ganddo gysylltiad cynhenid â'i systemau ar gyfer rheoli a dysgu o ddigwyddiadau a phryderon adroddadwy cenedlaethol. Nod y polisi hwn yw sicrhau y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheoli pob digwyddiad Dyletswydd Gonestrwydd drwy wneud defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi mynd o'i le a niwed posibl, ymddiheuro a chadw cofnod o

unrhyw ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd ar ein system Datix. Y nod yw sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n llawn hefyd gyda'r Polisi hwn a Gweithdrefn i gyfeirio ati pan gredir bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno.

4 Rolau a chyfrifoldebau

4.1 Prif Weithredwr

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli digwyddiadau a Sbardunau Dyletswydd Gonestrwydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi cael ei ddirprwyo o ddydd i ddydd yn y modd canlynol.

4.2 Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dynodi Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (QNAHPs) i weithredu fel y swyddog cyfrifol ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd o dan Reoliad 11. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol hwn yn sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ac adrodd yn effeithiol ddigwyddiadau sydd wedi sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bydd yn rhoi gwybod i'r Tîm Gweithredol Busnes am ddatblygiadau allweddol a bydd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar faterion allweddol sy'n ymwneud â gweithredu a defnyddio'r polisi hwn.

4.3 Y Tîm Gweithredol

Mae gan y Tîm Gweithredol atebolrwydd a chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo o fewn eu meysydd gwasanaeth dros gadw at y polisi hwn a'i weithredu. Rhaid iddynt sicrhau bod strwythurau a phrosesau priodol ar waith i gymhwyso'r polisi hwn ac i hwyluso'r broses o ymchwilio i ddigwyddiadau a sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn cael eu nodi a'u cofnodi, y rhoddir sylw iddynt ac y cânt eu gweithredu a'u harchwilio.

4.4 Swyddog Cyfrifol Anweithredol

Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023, mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddynodi person i fod yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth strategol o weithrediad y weithdrefn gonestrwydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dynodi'r rôl hon i'r Is-gadeirydd.

4.5 Cyfarwyddwyr Gweithredol a Phenaethiaid Rhaglenni

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol a Phenaethiaid Rhaglenni yn gyfrifol am gael trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau yr ymchwilir yn briodol i ddigwyddiadau yn y Gyfarwyddiaeth/Adran/Maes Gwasanaeth. Mae hyn yn

cynnwys sefydlu trefniadau adrodd a monitro gyda ffocws ar y gwersi a ddysgwyd. Rhaid iddynt sicrhau hefyd eu bod yn ymgysylltu â'r Rheolwr Hawliadau i gefnogi ymchwiliadau i ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn eu Cyfarwyddiaeth/Adran berthnasol. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw fethiannau a nodwyd sy'n codi wrth ymchwilio i ddigwyddiad Dyletswydd Gonestrwydd yn cael sylw a bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad. Byddant yn gyfrifol am gynhyrchu a monitro cynlluniau gweithredu. Byddant yn monitro bod digon o adnoddau i weithredu Dyletswydd Gonestrwydd. Rhaid iddynt sicrhau hefyd bod staff priodol yn cael eu rhyddhau a'u bod ar gael i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau yn unol â'r amserlenni Dyletswydd Gonestrwydd gofynnol fel y'u nodir yn y Gweithdrefnau Dyletswydd Gonestrwydd.

4.6 Arweinwyr Ymchwiliadau Dyletswydd Gonestrwydd

Bydd Rheolwyr Rhaglenni Dynodedig, Arweinwyr Clinigol a Chlinigwyr Arweiniol neu unrhyw Uwch-reolwyr eraill yn y gwasanaethau yn cael eu nodi gan y Gyfarwyddiaeth berthnasol i arwain y gwaith o ymchwilio i ddigwyddiadau a allai sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

4.7 Rôl y Rheolwr Hawliadau

Bydd y rheolwr Hawliadau yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei rwymedigaeth statudol o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd, yn unol â gofynion Canllawiau Statudol 2023. Mae'n bwysig sicrhau bod y Rheolwr Hawliadau ar lefel ddigon uchel yn y sefydliad a bod ganddo arbenigedd pwnc perthnasol a bydd ganddo fynediad uniongyrchol er mwyn briffio'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol QNAHPs a'r Tîm Gweithredol yn ôl yr angen i gyflawni'r amcanion ar gyfer rheoli'n effeithiol unrhyw ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd.

4.8 Cynghorwyr Cyfreithiol

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn am gyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) pan fo angen, yn enwedig ar gyfer y digwyddiadau hynny lle mae angen arweiniad pellach ar gymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Mae'r weithdrefn ar gyfer cyfarwyddo a chysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg wedi'i nodi yn y Weithdrefn Rheoli Hawliadau, ac ar gyfer ceisiadau am gyngor cyfreithiol gall staff gysylltu â'r Rheolwr Hawliadau am y ffurflen gais gyfreithiol y bydd y Rheolwr Hawliadau yn ei hanfon ymlaen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg am gyngor.

4.9 Rheolwyr a Staff sy'n ymwneud â digwyddiadau

Dyletswydd Gonestrwydd

Bydd rheolwyr a staff sy'n ymwneud â digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn cael gwybod am gynnydd a chanlyniad pob achos unigol drwy'r Rheolwr Hawliadau.

4.10 Pob aelod staff

Mae cydweithrediad yr holl staff sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad sy'n arwain at sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn hanfodol. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod staff o'r fath yn cael eu hannog i gefnogi'r Rheolwr Hawliadau ac unrhyw gynghorwyr cyfreithiol sydd wedi'u penodi'n briodol, wrth ymdrin â digwyddiad Dyletswydd Gonestrwydd. Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i adrodd digwyddiadau.

Mae gan bob aelod staff ddyletswydd i gydweithredu'n llawn ac yn agored wrth asesu, archwilio ac ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad Dyletswydd Gonestrwydd a rhaid iddo gydymffurfio â'r polisi hwn a'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd.

Rhaid i bob aelod staff adrodd digwyddiadau ar system reoli Datix, gan gynnwys y rhai y gellid eu dosbarthu'n Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol a sbardunau Dyletswydd Gonestrwydd, yn unol â gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo diwylliant teg a diwylliant o beidio â bwrw bai. Wrth adrodd am ddigwyddiadau, rhaid darparu disgrifiad manwl o'r digwyddiad, ynghyd â gwybodaeth am y defnyddiwr gwasanaeth, datganiadau tystion/manylion cyswllt aelodau staff perthnasol a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad neu'n dyst iddo a dylid lanlwytho unrhyw ddogfennau perthnasol eraill hefyd i gofnod digwyddiadau Datix.

Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, dylai unrhyw aelod staff y gofynnir iddo wneud hynny roi sylwadau ysgrifenedig neu dystiolaeth ffurfiol ysgrifenedig neu ar lafar a gwybodaeth am yr ymchwiliad i'r Sbardun Dyletswydd Gonestrwydd perthnasol i'r Rheolwr Hawliadau neu'r cynghorydd cyfreithiol mewn modd amserol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod y gall darparu datganiad a rhoi tystiolaeth fod yn brofiad llawn straen a bydd yn sicrhau bod cefnogaeth ac arweiniad llawn yn cael eu darparu i aelodau staff y gofynnir iddynt roi tystiolaeth ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru.

5 Gofynion Adrodd

Bydd gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a chyhoeddi adroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei baratoi

cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd angen iddo nodi a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno yn y flwyddyn adrodd ac os ydyw:

a. Dylid nodi pa mor aml y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi'i sbarduno yn ystod y flwyddyn adrodd.
b. Dylid rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau y cafodd y ddyletswydd ei sbarduno ynddynt; a
c. Dylid nodi unrhyw gamau a gymerwyd gan y corff gyda'r bwriad o atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol

Dylid symleiddio'r adroddiad blynyddol hwn a'i gynnwys fel rhan o'r adroddiad blynyddol Gweithio i Wella.

6 Trefniadau Sicrwydd a Monitro'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i fonitro a cheisio sicrwydd bod gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i gyflawni cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Bydd y Tîm Gweithredol yn sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer gweithredu'r polisi hwn yn barhaus ac ar gyfer adrodd yn chwarterol mewn adroddiadau ar ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd. Bydd y tîm Gweithredol yn cael ei gefnogi yn y broses gan Arweinwyr a rheolwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gan sicrhau bod y gwaith o weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhan allweddol o'r systemau dysgu yn eu meysydd gwasanaeth a chânt sicrwydd bod y gwaith angenrheidiol o integreiddio ac alinio â phrosesau a gweithdrefnau wedi'i gwblhau a'i fod yn atgyfnerthu'r gwerthoedd a ddisgwylir yn eu maes gwasanaeth.

Bydd y Tîm Gweithredol yn derbyn, yn adolygu ac yn argymell camau gweithredu yn ôl yr angen mewn adroddiad cynnydd chwarterol ar reolaeth a statws digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd. Bydd yr adroddiad hwn yn destun craffu pellach gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn cael sicrwydd. Bydd cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn ôl yr angen am unrhyw faterion sylweddol.

Bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau allweddol o'r Gyfarwyddiaeth/Adran berthnasol yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor ar gyfer digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd sy'n dod o fewn eu portffolio, i roi sicrwydd a nodi unrhyw gamau gweithredu ychwanegol y gellir eu nodi.

7 Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd

Datblygwyd Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd sy'n cefnogi ac yn ymgorffori'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn.

Mae'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn nodi'r prosesau ar gyfer rheoli'n digwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn ymarferol o ddydd i ddydd.

8 Monitro ac archwilio

Mae'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn nodi'r broses ar gyfer rheoli, monitro dysgu, archwilio a sicrwydd bwrdd.

Bydd cofnod canolog o ddigwyddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gynnal a'i oruchwylio gan y Rheolwr Hawliadau gan ddefnyddio'r system Datix. Bydd cyfarfod chwarterol yn cael ei gynnull hefyd gyda'r Rheolwr Hawliadau, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio a Phennaeth yr **Is-a**dran Sgrinio, er mwyn asesu sut mae gwelliannau'n cael eu gweithredu ar ôl nodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

9 Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei weithredu'n fewnol a gwneir trefniadau er mwyn sicrhau bod dechreuwyr newydd yn cael eu hyfforddi'n briodol. Bydd hyfforddiant yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn unol ag unrhyw newidiadau mewn canllawiau.

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar ddwy lefel.

Lefel 1 - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Gonestrwydd – hyfforddiant ymwybyddiaeth sy'n berthnasol i'r holl staff sy'n cael ei gomisiynu gan GIG Cymru ac a fydd ar gael ar y Cofnod Staff Electronig (ESR).

Lefel 2 - Hyfforddiant Cymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd - sy'n cael ei ddatblygu'n fewnol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno i staff allweddol sy'n ymwneud â chymhwyso'r Ddyletswydd Gonestrwydd a fydd yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol.

10 Cyfrinachedd

Wrth gwblhau cofnodion o dan y ddyletswydd gonestrwydd, dylai staff gofio y gall unrhyw gofnodion a wneir mewn perthynas â'r digwyddiad gael eu datgelu i'r unigolyn o dan GDPR y DU (os mai eu data personol ydyw) neu i'r cyhoedd yn gyffredinol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (os nad yw'n ddata personol). Dylai staff gynnwys Swyddog Diogelu Data eu sefydliad hefyd pan ymddengys bod canlyniad niweidiol hysbysadwy yn cynnwys achos o dorri data personol gan y gallai fod gofynion adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan GDPR y DU hefyd.